# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2018

Amser: 08.30 - 08.53

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau pan ddaw Pwyllgor y Cynulliad Cyfan i ben. Bydd Pwyllgor y Cynulliad Cyfan yn dechrau am 13.00. Bydd seibiant o 15 munud ar ôl i Bwyllgor y Cynulliad Cyfan ddod i ben.

- Mae'r Llywodraeth wedi ychwanegu dau ddatganiad at agenda'r Cyfarfod Llawn
  - Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Llywodraeth Leol (45 munud)
  - Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Ymgynghoriad ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft (30 munud)

- O ran yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw, gofynnodd Rhun ap Iorwerth a fyddai'n bosibl gohirio'r eitem ar Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018, yn sgil y ffaith bod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi mynegi'r farn bod angen mwy o waith craffu ar y rheoliadau. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'n trafod y mater gyda'r Gweinidog perthnasol y tu allan i'r pwyllgor.

- Bydd y Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal fel eitem 6. Bydd yr eitem hon yn cael ei chynnal cyn diwedd y cyfarfod, gan fod dau ddatganiad ar ôl y Cyfnod Pleidleisio nad ydynt yn destun pleidlais.

**Dydd Mercher**

- Mae'r Rheolwyr Busnes wedi gohirio dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig tan 18 Ebrill, yn sgil yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer y Ddadl Cyfnod 3.

- Bydd egwyl o 15 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.

- Bydd y Cyfnod Pleidleisio ar gyfer busnes y Cynulliad yn cael ei gynnal fel eitem 8, cyn y Ddadl Cyfnod 3. Bydd gweithgarwch pleidleisio yn digwydd drwy gydol y Ddadl Cyfnod 3, a bydd pleidlais gofnodedig ar gyfer Cyfnod 4 yn cael ei chynnal ar ddiwedd y cyfarfod.

- Mae dadl fer Rhianon Passmore wedi cael ei gohirio. Mae'r dyddiad pan gaiff y ddadl honno ei chynnal i'w gadarnhau.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 18 Ebrill 2018 –**

- ~~Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:~~
  - ~~Cynnig i gymeradwyo Polisi Urddas a Pharch y Cynulliad (30 munud)~~
  - ~~Cynnig i ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau (30 munud)~~ – ***ar gais y Pwyllgor Safonau Ymddygiad***

- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)</u>– ***gohiriwyd ers 21 Mawrth***

**Dydd Mercher 2 Mai 2018 –**

- <u>Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Caffael Cyhoeddus (30 munud)</u>
- <u>Dadl gan Aelod o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)</u>

# 4 Amserlen y Cynulliad

## 4.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor mis Hydref a thoriad y Nadolig 2018, a chytunodd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor y gwanwyn a thoriad yr haf 2018.

# 5 Rheolau Sefydlog

## 5.1 Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth i gyflwyno papur ar y materion y mae'n ystyried eu bod yn flaenoriaethau ar gyfer yr adolygiad.

Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno papur ynghylch casglu a chyhoeddi canllawiau a ddarparwyd i'r Aelodau gan y Llywydd.